Dogfen Ymgynghori

Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd

Safle dros dro yn

Hafon y Wern - Adeilad Meithrin
Ffordd Deva
Wrecsam
LL13 9HD

Trosglwyddo yn dilyn hynny i
safle parhaol yn y dyfodol
ym Mharc Borras - Adeilad y Babanod
Ffordd Parc Borras
Wrecsam
LL12 7TH

Neu leoliad parhaol sydd eto i'w bennu

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad/Esboniad o'r ymarfer ymgynghori
    - Yr ymgynghoriad
    - Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw
    - Datblygu cynigion ar drefniadaeth yr ysgol
    - Uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer Addysg yn Wrecsam
2. Mae eich barn chi'n bwysig
3. Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon
4. Y Cynnig
5. Pam ein bod yn cynnig y newidiadau?
6. Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn ysgol
7. Cyflenwad a galw am leoedd ysgol
8. Opsiynau a gwybodaeth gryno
9. Digonolrwydd adeiladau ysgol
10. Trefniadau dros dro
11. Effaith y cynnig ar ysgolion cyfagos
12. Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?
13. Ansawdd a safonau
    - Estyn
    - Llywodraeth Cymru
    - Gwerthuso effaith y cynnig ar ansawdd a safon yr addysg
14. Beth fyddai'r effaith ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)?
15. Manteision posibl Gweithredu'r cynnig
16. Anfanteision posibl Gweithredu'r cynnig
17. Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig
18. Trefniadau derbyn
19. Cyllid: Costau a chyllido
20. Effaith ar Staff
21. Trefniadau cludiant
22. Effaith ar y gymuned
23. Asesiad o Effaith ar y Gymuned

24. Asesiad o Effaith ar y Gymraeg
25. Effaith y cynnig ar ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru
26. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
27. Cynaliadwyedd
28. Y camau nesaf - sut i leisio eich barn
29. Dyddiadau allweddol
30. Beth fydd yn digwydd nesaf?
31. Cyfnod ymgynghori
32. Cyhoeddi hysbysiadau statudol
33. Penderfynu ar y cynigion
34. Hysbysiad o'r Penderfyniad
35. Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

1. Cyflwyniad - Esboniad o'r ymarfer ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i staff, rhieni, budd-ddeiliaid a'r gymuned ehangach ddysgu am y cynigion trefniadaeth ysgolion a gyflwynwyd yn eich ardal chi.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dymuno casglu barn y rhai sydd â chysylltiad ynglŷn â **chynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd o fis Medi 2019**, wedi'i lleoli i ddechrau yn hen safle babanod Hafod y Wern ar Ffordd Deva, Wrecsam. Mae cynnig i symud i safle parhaol yn y dyfodol, a fwriedir ar hyn o bryd i fod ym Mharc Borras, Ffordd Parc Borras, Wrecsam, pan fydd y safle ar gael, neu fe fydd lleoliad parhaol sydd eto i'w bennu'n cael ei ddewis ar y cyfle cyntaf a ddaw.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon â gwybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn y canllawiau rheoleiddio a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ar **26 Medi 2017** ac yn dod i ben ar **7 Tachwedd 2017**.

Yr Ymgynghoriad

Mae'r Cyngor yn dymuno derbyn barn yr holl rai sy'n debygol o fod â chysylltiad â'r cynnig. Mae'n bwysig bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i farn budd-ddeiliaid cyn gwneud penderfyniadau.

Felly, rydym yn ymgynghori â'r gymuned, defnyddwyr posibl a budd-ddeiliaid perthnasol eraill.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r rhyngrwyd i gasglu barn pobl. Mae croeso i chi ofyn cwestiynau a rhoi eich barn drwy anfon e-bost at **newwelshmedium@wrexham.gov.uk** neu roi eich ymateb yn ysgrifenedig.

Dylid anfon llythyrau ymateb at Dafydd Ifans, Pennaeth Gwasanaethau Isadeiledd a Chymorth Addysg, yr 2il Lawr, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR erbyn **7 Tachwedd 2017**.

Bydd eich barn yn cael ei ystyried gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor mewn cyfarfod i'w gynnal ar **12 Rhagfyr 2017** pan fydd penderfyniad i bennu a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.

Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw

- Yr awdurdod cynnal arfaethedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Bwrdd Gweithredol).
- Awdurdodau lleol eraill, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych.
- Cyrff llywodraethu holl ysgolion cynradd Wrecsam.
- Corff Llywodraethu Ysgol Morgan Llwyd.
- Corff Llywodraethu Hafod y Wern.
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parc Borras.
- Corff Llywodraethu Ysgol Plas Coch.
- Corff Llywodraethu Ysgol Bodhyfryd
- Tîm Iechyd Dechrau'n Deg wedi'i leoli yn Hafod y Wern.
- Rhieni (a darpar-rieni, lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid.
- Aelodau Lleol
- Gweinidogion Cymru.
- Aelodau Cynulliad: AC Llyr Gruffydd, AC Lesley Griffiths, AC Mark Isherwood, AC Ken Skates.
- Aelodau Seneddol: AS Susan Jones, AS Ian Lucas.

- Estyn.
- Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill.
- GwE.
- Adran Drafnidiaeth Cyngor Wrecsam.
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Cynghorau Cymuned.
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Datblygu cynigion ar drefniadaeth yr ysgol

Wrth ddatblygu cynigion ar drefniadaeth yr ysgol, dylid rhoi sylw i bolisïau ac egwyddorion cenedlaethol trosfwaol, gan gynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Iaith Fyw: Iaith Byw - Strategaeth Iaith Gymraeg 2012-2017;
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, cynllun datblygu cynaliadwy newydd Cymru, Mai 2009, neu unrhyw strategaeth olynol;
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (cyhoeddwyd Chwefror 2011, dogfen wybodaeth rhif 95/2011), neu unrhyw strategaeth olynol;
- Ffydd mewn Addysg.

Yn ogystal, wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth yr ysgol, dylid rhoi sylw i gynlluniau lleol, gan gynnwys;

- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygiad economaidd neu dai;
- Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg;
- Cynlluniau plant a phobl ifanc;
- Canllawiau ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dylid rhoi sylw hefyd i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion fel:

- Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr (Ebrill 2009);
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru.

Dyma'r ffactorau y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion:

- Ansawdd a safonau mewn addysg - deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth;
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion;
- Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill.

Ffactorau eraill cyffredinol megis effaith y cynnig ar blant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, ac unrhyw faterion cydraddoldeb (gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy asesiadau o effaith ar gydraddoldeb).

Uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer Addysg yn Wrecsam

Ein nod yw y bydd plant a phobl ifanc yn Wrecsam yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol, awydd cryf am ddysgu gydol oes ac yn cael eu paratoi'n dda iawn ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i symud ymlaen drwy wahanol gamau o'u haddysg. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael rhaglen ddysgu a fydd yn bersonol iddyn nhw, i wneud y mwyaf o'u galluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, menter, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd amcanion trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a darpariaeth ffydd hefyd.
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i godi safonau, gyda thasgau allweddol yn cynnwys sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol; a
- bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn cael eu canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

2. Mae eich barn chi'n bwysig

Sut allwch chi gael mwy o wybodaeth a rhoi eich barn?

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gyfathrebu eich barn i ni. Mae ffurflen ymateb ynghlwm wrth y ddogfen hon. Gallwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom yn y cyfeiriad a nodwyd.

Gallwch gysylltu â ni drwy e-bost. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ohebiaeth yw:

newwelshmedium@wrexham.gov.uk.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar ein gwefan, ac mae ffurflen ymateb ar gael ar:

www.wrexham.gov.uk/newwelshmediumconsultation

Ni fydd y sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar y cam hwn.

Byddwn yn cynnal nifer o sesiynau galw heibio i ymgyngoreion gysylltu â Swyddogion Addysg ac Aelod Arweiniol Addysg – dyddiadau i'w cadarnhau.

3. Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

SIY – Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn broses sydd wedi'i bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl dan anfantais neu bobl diamddiffyn.

Datganiad (AAA) – mae gan blentyn ddatganiad o Anghenion Addysg Arbennig (AAA) os oes ganddynt anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysg arbennig ar eu cyfer. Mae anhawster dysgu'n golygu bod y plentyn yn profi llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant yr un oed neu fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysg sy'n wahanol i'r rhai mae'r ysgol fel arfer yn eu darparu ar gyfer plant.

Hysbysiad Statudol – Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol ar gyfer cynnig terfynol, os yw wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor, ac ni fydd yn cael ei ystyried nes maent wedi derbyn adroddiad ar holl ymatebion y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofynnol yn gyfreithiol fel mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn ei nodi.

Nifer ar y Gofrestr – nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol, heb gynnwys disgyblion oed meithrin.

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae gwybodaeth wedi'i gwirio'n cael ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar yr iaith Gymraeg, cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim, Anghenion Addysg Arbennig a'u hiaith gyntaf.

4. <u>Y Cynnig</u>

Creu ysgol sydd â lle i 210 o ddisgyblion gan ddefnyddio safle babanod presennol Hafod y Wern, yn y lle cyntaf. Cyflwyno derbyniadau o **fis Medi 2019** ar gyfer y Dosbarth Meithrin a'r Dosbarth Derbyn. Bydd safle parhaol o fewn ysgol sy'n addas i'r diben yn cael ei ddatblygu o fewn hen adeilad ysgol yn Ysgol Fabanod Borras. Bydd yn cael ei gwblhau am gostau rhesymol er mwyn creu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Byddai hyn yn datblygu gwasgariad demograffig ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn y sir ac yn ateb y galw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ac yn defnyddio cyllid Cyfalaf yr Awdurdod Lleol a thaliadau Adran 106 i ariannu'r prosiect cychwynnol.

5. **Pam ein bod yn cynnig y newidiadau?**

- I barhau i gynnig gwell mynediad a chyfranogiad ehangach mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd i ddysgwyr Wrecsam.
- I barhau i ddenu mwy o gyfranogiad a chadw mwy o ddisgyblion yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg.
- I fynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam.
- I ehangu gwasgariad demograffig darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam.
- I sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ddarparu'r gwerth gorau am arian.
- gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Cefnogi nodau ac amcanion Strategaeth Iaith Gymraeg Wrecsam (2016).

6. **Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn ysgol**

Byddai unrhyw newidiadau i adeiladau ysgol presennol y byddai eu hangen pe bai'r cynnig a amlinellir uchod yn cael ei weithredu'n bodloni amodau cyllido Llywodraeth Cymru fel BREEAM ac yn unol â'r Adran Addysg:

Canllawiau ardaloedd ar gyfer Bwletin Adeiladu 99 ysgolion prif ffrwd sy'n nodi bod angen i'r cyfleusterau canlynol fod wedi'u cynnwys mewn ysgol:

Gofod addysgu: mewnol ac allanol
Neuaddau/ardal fwyta
Ardaloedd adnoddau dysgu
Staff a gweinyddu
Storfeydd
Toiledau a gofal personol
Cyfleusterau cegin

Cylchrediad awyr, cyfarpar a waliau mewnol

7. Cyflenwad a galw am leoedd ysgol

Ar hyn o bryd, mae 1,715 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws chwe safle ysgol o fewn y sir sy'n ffurfio rhan o glwstwr Morgan Llwyd o ysgolion.

245 o leoedd meithrin
Capasiti o 1715

Enw'r Ysgol	Nifer ar y Gofrestr ar 12 Ionawr 2017	Nifer Dybiedig ar y Gofrestr fis Ionawr 2018	Nifer Dybiedig ar y Gofrestr fis Ionawr 2019	Nifer Dybiedig ar y Gofrestr fis Ionawr 2020	Nifer Dybiedig ar y Gofrestr fis Ionawr 2021
Ysgol Min y Ddol	**85**	**91**	**97**	**105**	**108**
Ysgol Bryn Tabor	**230**	**246**	**253**	**261**	**273**
Ysgol Hooson	**272**	**282**	**279**	**281**	**278**
Ysgol Plas Coch	**315**	**302**	**296**	**279**	**285**
Ysgol Bro Alun	**119**	**149**	**179**	**209**	**209**
Ysgol Bodhyfryd	**332**	**341**	**344**	**357**	**360**
Cyfanswm	**1,353**	**1,411**	**1,448**	**1,492**	**1,513**

Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg 2006 - 2016

Blwyddyn	Y Garfan Cyfan	Y Garfan Gymraeg	% Cymraeg	% Gwahaniaeth
2006	11558	1019	8.8%	
2007	11573	1005	8.7%	-0.1%
2008	11636	1150	9.9%	1.2%
2009	11618	1097	9.4%	-0.4%
2010	11763	1167	9.9%	0.5%
2011	11982	1230	10.3%	0.3%
2012	12167	1314	10.8%	0.5%
2013	12315	1373	11.1%	0.3%
2014	12618	1433	11.4%	0.2%
2015	12889	1541	12.0%	0.6%
2016	13106	1602	12.2%	0.3%
			Cyfanswm	3.41%

Cyfrifo galw lleol am leoedd mewn ysgolion

Er mwyn cyfrifo'r galw tebygol am leoedd mewn ysgolion, roedd angen defnyddio unedau daearyddol o ddata sydd â thueddiadau hanesyddol sy'n benodol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Wrth ystyried y galw tebygol, mae nifer o ffactorau wedi'u defnyddio fel gwybodaeth i lunio amcangyfrifon a rhagolygon.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Poblogaethau diweddar a hanesyddol y gwŷr iddynt fyw ym mhob ardal gan ddefnyddio data Meddyg Teulu.
- Niferoedd diweddar a hanesyddol ar y gofrestr a gymerwyd o CYBLD (Cyfrifiad Blynyddol Lefel Disgyblion) ar gyfer Ysgolion Wrecsam.
- Niferoedd y plant sy'n byw yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i fod ar y gofrestr sy'n mynychu ysgolion y tu allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae cymharu'r data poblogaeth a ddarparwyd gan y GIG gyda nifer y disgyblion a dderbynnir i Ysgolion Wrecsam o'r garfan hon yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer y galw am lefydd mewn ysgolion yn ogystal â chyfran y disgyblion a fydd yn dewis lle mewn ysgol y tu allan i Wrecsam.

Fel y dywedir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrechu i alluogi pob plentyn ac unigolyn ifanc i fod yn siaradwyr dwyieithog hyderus drwy ei ddarpariaeth addysg, a gallu byw, gweithio a chymdeithasu yn gyfforddus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae poblogaeth sylfaenol gynyddol yn Wrecsam, cyfran sy'n tyfu y bydd angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Mae nifer cyffredinol y lleoedd a gynigir ar gyfer dosbarthiadau derbyn a meithrin wedi tyfu o 1683 i 1847 rhwng 2008 a mis Medi 2015. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 9.75%, mae cynnydd cyfatebol y ddarpariaeth gyda chlwstwr Morgan Llwyd (darpariaeth cyfrwng Cymraeg) wedi bod yn 51%, gan gynyddu o 162 o leoedd i 245.

Mae cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyfredol ac ar gyfer y dyfodol yn ystyried y gwaith o fonitro'r galw yn ogystal â galluogi cynnydd yn nifer y mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

8. Opsiynau a gwybodaeth gryno

Ystyried yr opsiynau safle

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Lleol yn bodloni'r galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y twf parhaus yn y galw a'i nod yw parhau i ddarparu twf strategol wedi'i gynllunio o fewn y sector, ar ôl cynyddu'r capasiti'n barod o 51% ers 2008.

Ar ôl ystyried ystâd yr ysgol bresennol a'r gofyniad cyllid cyfalaf i sefydlu a cheisio ysgol newydd, mae gan yr Awdurdod ddau opsiwn ar gael ar hyn o bryd:

1. **Y Sefyllfa Bresennol – Bodloni'r galw pan ddaw**

    - Mae hon yn ymagwedd fwy at y diben, sydd â'r nod o fodloni'r galw pan ddaw, yn hytrach na chynllunio ar gyfer twf y dyfodol.
    - Mae'n seiliedig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyfredol ar draws y sir, yr angen posibl i ddefnyddio ystafelloedd dosbarth symudol, gyda'r nod o sicrhau buddsoddiad yn y dyfodol. Bydd Band B o Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif sydd i'w gynnal rhwng 2019 a 2024 yn gofyn am 50% o'r cyllid gan yr Awdurdod Lleol.
    - Mae cyfyngiadau safle ac angen am ganiatâd cynllunio ar y safleoedd cyfredol, nid yw'r defnydd o adnoddau yn effeithlon ac effeithiol.
    - Hyd yma, nid yw argaeledd safleoedd addas ar gyfer adeiladu ysgol newydd sbon yn hysbys.

2. **Creu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer 210 o ddisgyblion**

    - Dyma ymagwedd fwy strategol sydd â'r nod o ddatblygu mewn modd amserol i fodloni'r twf parhaus.
    - Cynnydd o ran opsiynau ar gyfer ysgolion lleol i rieni/gofalwyr.
    - I ddechrau, byddai'n cael ei lleoli mewn adeilad ysgol sydd eisoes yn ein hystâd. Byddai hyn yn cynnwys buddsoddiad gan y Rhaglen Gyfalaf a chyfraniadau datblygwr A106 o bosibl lle y bo'n gymwys.
    - Byddai safle parhaol ar gael yn dilyn y gwaith, yn ogystal ag arian gan raglen ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n agos i'r safle dros dro.

9. Digonolrwydd Adeiladau Ysgol

Ar hyn o bryd, y bwriad yw ailddefnyddio/addasu adeilad o ystâd yr ysgol bresennol, Safle Babanod Parc Borras, i gynnig darpariaeth wedi'i gynllunio'n strategol fel rhan o Brosiect Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Enw'r Ysgol	Capasiti MCSW	Graddfa Cyflwr
Ysgol Gynradd flaenorol Parc Borras – Safle Babanod	210	Bloc 1:B Bloc 2:C

Yr Amod a nodir yw cyn y gwaith cynlluniedig, a gaiff ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad arfaethedig a chymeradwyo'r cyllid o Brosiect Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

10. Trefniadau dros dro

Gellir defnyddio ystâd yr Ysgol wag gyfredol ar gyfer y safle cychwynnol am gost resymol. Nid yw hyn yn ddibynnol ar gyllid allanol y tu hwnt i'r defnydd o rai o gyfraniadau datblygwyr A106.

Enw'r Ysgol	Capasiti MCSW	Graddfa Cyflwr
Hafod Y Wern yn flaenorol – Safle Babanod	105	D

Yr Amod a nodir yw cyn y gwaith cynlluniedig, a gaiff ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad yn llwyddiannus.

11. Effaith y cynnig ar ysgolion/chweched dosbarth cyfagos

Mae effaith ar ddyfodol Ysgol Morgan Llwyd oherwydd twf y disgyblion cynradd. Mae'r Awdurdod Lleol eisoes yn rhagweld y twf ac yn mynd i'r afael â hyn drwy ehangu darpariaeth yn yr ysgol, gan ddefnyddio arian band A Ysgolion yr 21ain ganrif.

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
NDC	759	744	766	755	840	914	991	1087

**NDC = nifer y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol*

Ysgol Morgan Llwyd

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Blwyddyn 12	60	69	66	58
Blwyddyn 13	69	59	60	50

Amcanestyniadau ar gyfer y 3 blynedd nesaf (Data o Ionawr 2017 Amcanestyniadau Disgyblion)

12. Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Byddai darpariaeth meithrin yn cynyddu oherwydd y galw cyfredol am Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynigion yn rhoi cyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau modern o ansawdd uchel a fydd yn gallu cefnogi darpariaeth addysg Gymraeg gynyddol yn y dosbarth meithrin.

13. Ansawdd a Safonau

Barn y Cyngor, os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu, yw y bydd yn cynnal a pharhau i wella safon ac ansawdd yr addysg gyfredol yn y cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig hwn yn cael effaith ar gynaliadwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynnal y safon gyfredol gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal am y rhesymau canlynol:

- Canlyniadau (safonau a lles)
- Darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth, arweiniad ac amgylchedd dysgu)
- Arwain a Rheoli (arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw wybodaeth i awgrymu y byddai Ansawdd a Safonau ysgolion presennol yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y cynigion. Y disgwyliad fyddai bod buddsoddi mewn cyfleusterau ysgol newydd yn ychwanegu gwerth ac yn rhoi'r potensial i gefnogi darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a phrofiadau dysgu plant.

14. Beth fyddai'r effaith ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)?

Ni fyddai'r ysgol yn cynnwys darpariaeth AAA ac felly ni fyddai'n cael unrhyw effaith ar ddarpariaeth ar draws y Sir.

Ni fyddai effaith arfaethedig ar ddarpariaeth AAA yn y Sir.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer AAA wedi'i lleoli yn Ysgol Bodhyfryd. Ni fyddai'r ysgol ychwanegol hon yn cael effaith ar y cynllun hwnnw.

15. <u>Manteision Posibl Gweithredu'r Cynnig</u>

Pe bai'r cynnig i greu darpariaeth newydd gyda lle i 210 o blant yng nghyn safle Babanod Hafod y Wern yn cael ei roi ar waith, disgwylir y byddai'r buddion canlynol yn cael eu gwireddu.

1.	Bydd yn helpu i fodloni'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam (ysgol gyda lle i 210 yn ogystal â dosbarth meithrin o 30 o blant). Derbyniad arfaethedig cyntaf o 15 o lefydd yn y dosbarth meithrin a 15 o lefydd yn y dosbarth derbyn – **mis Medi 2019** ar safle dros dro yn Hafod y Wern.
2.	Bydd yn cynnig lleoliad ychwanegol i rieni, gan gynyddu lledaeniad daearyddol ein hysgolion cyfrwng Cymraeg.
3.	Gellir defnyddio ystâd yr Ysgol wag gyfredol ar gyfer y safle cychwynnol am gost rhesymol. Nid yw hyn yn ddibynnol ar gyllid allanol y tu hwnt i'r defnydd o rai o gyfraniadau datblygwyr A106.
4.	Defnydd o adeilad parhaol yn y dyfodol, mewn ystâd ysgol bresennol, i gynnig darpariaeth wedi'i chynllunio'n strategol fel rhan o Brosiect Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

5.	Mae'r cynnydd mewn darpariaeth erbyn **mis Medi 2019** yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru – 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050.
6.	Mae'n cefnogi'r nodau ac amcanion yn Strategaeth y Gymraeg Wrecsam (2016).

16. Anfanteision Posibl Gweithredu'r Cynnig

Pe bai'r cynnig i greu darpariaeth newydd gyda lle i 210 o blant yng nghyn safle Hafod y Wern yn cael ei roi ar waith, mae'n bosibl y byddai'r canlynol yn digwydd.

1.	Gallai rhieni ddewis peidio â chynnwys safle'r ysgol newydd yn Ffordd Deva fel opsiwn.
2.	Gallai mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael barhau yn yr ysgolion fwyaf poblogaidd, gan arwain at wrthod dewisiadau cyntaf rhieni.

17. Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Cynnig

Efallai na fydd y cynigion yn gyraeddadwy os na chaiff cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ei sicrhau ar y cam achos busnes.

Pe na bai'r cyngor yn llwyddiannus yn cyflawni'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru, yna'r Cyngor fyddai'n llwyr gyfrifol am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddai'n angenrheidiol adolygu opsiynau buddsoddi er mwyn sicrhau bod digon o lefydd ysgol yn cael eu darparu.

Mae'r risgiau i'r Cyngor a'r budd-ddeiliaid yn fach iawn. Caiff risgiau eu lliniaru fel a ganlyn:

Bydd yr holl risgiau posibl yn cael eu monitro fel rhan o strategaeth rheoli risg Ysgolion Cyngor Sir Wrecsam. Drwy fonitro a sicrhau bod ymagwedd gadarn at y risgiau a'r anfanteision uchod, gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion / rhieni / gofalwyr / athrawon a staff cymorth.

O ystyried y manteision, y risgiau a'r anfanteision uchod, mae'r Awdurdod Lleol yn credu bod manteision hirdymor y cynnig, megis

- cynnydd mewn llefydd mewn ardal lle mae'r galw'n cynyddu mewn modd a gynlluniwyd yn strategol erbyn **mis Medi 2019**,
- cost gychwynnol eithaf isel i gael ei dalu gan arian Cyfalaf a chyfraniadau Datblygwr A106, ac felly lle na fyddai'r costau cychwynnol yn ddibynnol ar sicrhau cyllid allanol.

18. Trefniadau Derbyn

Bydd trefniadau derbyn yn parhau i fod yn unol â Gweithdrefnau Derbyn y Cyngor.

Gallwch weld y Polisi Derbyn yn:

https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/admissions/parents_guide.pdf

Cofnod arfaethedig cyntaf o 15 o lefydd yn y dosbarth meithrin a 15 o lefydd yn y dosbarth derbyn – **mis Medi 2019** ar safle dros dro yn Hafod y Wern. Pan gaiff yr Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ei hadleoli i safle parhaol, bydd y nifer derbyn yn cynyddu i 30 o lefydd ar gyfer y dosbarth Meithrin ac i 30 o lefydd ar gyfer y dosbarth Derbyn yn unig. Yna, bydd yr ysgol yn cynyddu'n naturiol ac yn llenwi o'r gwaelod i'r top.

19. <u>Cyllid: Costau a Chyllido</u>

Defnyddio arian Cyfalaf Addysg, a chyfraniadau Datblygwr A106 lle y bo'n bosibl. Astudiaeth ddichonoldeb yn unig yn cael ei chynnal ar y cam hwn. Pe caiff y cynnig ei roi ar waith, yna byddai ymarfer tendro llawn yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae'r safle parhaol wedi ei gynnwys yn y Cynllun Strategol amlinellol a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Byddai cost i'r CYU, byddai costau'n codi gan y byddai angen mwy o staff wrth i'r ysgol dyfu i'w chapasiti posibl o 105 o ddisgyblion.

	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026
Cyllideb Ddirprwyedig	101,894	222,031	303,211	378,773	450,323	521,873	593,423	623,236
Grwpiau Blwyddyn ar y safle	Meithrin a Derbyn	Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1	Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2	Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3	Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4	Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5	Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 6	Yr holl grwpiau blwyddyn yn llawn
Nifer y Grwpiau Blwyddyn	2	3	4	5	6	7	8	8
Nifer y	30	45	60	75	90	105	120	120

Disgyblion								
Cost fesul Disgybl	**3,396.47**	**4,934.02**	**5,053.52**	**5,050.31**	**5,003.59**	**4,970.22**	**4,945.19**	**5,193.63**

Y gost fesul disgybl ar gyfartaledd yn ysgolion Wrecsam ar gyfer 2017/2018 yw £3,569
Ar hyn o bryd, mae 26 (44%) o ysgolion cynradd sy'n costio'n fwy na'r gost gyfartalog am bob disgybl, yn amrywio o £3,581 i £9,983.

Rhagdybiaethau:

2027 - blwyddyn ariannol lawn gyntaf gyda'r ysgol lawn a'r lefelau staffio uchaf

Strwythurau Dosbarth Arfaethedig – Ysgol Interim/Egino

Y mwyaf gaiff ysgol ei dderbyn yw 15 am bob grŵp blwyddyn

	Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
2019	15	15						
2020	15	15	15					
2021	15	15	15	15				
2022	15	15	15	15	15			
2023	15	15	15	15	15	15		
2024	15	15	15	15	15	15	15	
2025	15	15	15	15	15	15	15	15

	Dosbarth 1	Dosbarth 2	Dosbarth 3	Dosbarth 4
	Meithrin/Derbyn	Blwyddyn 1/Blwyddyn 2	Blwyddyn 3/Blwyddyn 4	Blwyddyn 5/ Blwyddyn 6
2019	30			
2020	30	15		
2021	30	30		
2022	30	30	15	
2023	30	30	30	
2024	30	30	30	15
2025	30	30	30	30

Pe bydden ni'n llenwi'r safle sydd â chapasiti o 105 yn Hafod y Wern, byddai pedwar dosbarth o 30 pan fydd yr ysgol yn llawn

***Strwythurau Dosbarth Arfaethedig* – Ysgol Barhaol**

Y mwyaf gaiff ysgol ei dderbyn yw 30 am bob grŵp blwyddyn

	Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
2019	15	15						
2020	15	15	15					
2021	15	15	15	15				
2022	15	15	15	15	15			
2023	30	30	15	15	15	15		
2024	30	30	30	15	15	15	15	
2025	30	30	30	30	15	15	15	15
2026	30	30	30	30	30	15	15	15
2027	30	30	30	30	30	30	15	15
2028	30	30	30	30	30	30	30	15

2029	30	30	30	30	30	30	30	30

	Dosbarth 1	**Dosbarth 2**	**Dosbarth 3**	**Dosbarth 4**	**Dosbarth 5**	**Dosbarth 6**	**Dosbarth 7**	**Dosbarth 8**
	Meithrin/Derbyn	**Blwyddyn 1/Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3/Blwyddyn 4**					
2019	30							
2020	30	15						
2021	30	30						
2022	30	30	15					
	Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1/Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3/Blwyddyn 4**				
2023	30	30	30	30				
	Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2/Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4/Blwyddyn 5**			
2024	30	30	30	30	30			
	Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn**	**Blwyddyn**		

					3/Blwyddyn 4	**5/Blwyddyn 6**		
2025	30	30	30	30	30	30		
	Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
2026	30	30	30	30	30	30	30	15
	Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
2027	30	30	30	30	30	30	30	30

20. Effaith ar Staff

Byddai nifer o oblygiadau Adnoddau Dynol yn ymwneud â'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda darpariaeth meithrin.

Byddai angen paratoi a phenodi strwythur staffio priodol. Byddai angen i'r Pennaeth a'r corff llywodraethu a benodwyd ystyried polisïau a gweithdrefnau AD y byddai'n ei fabwysiadu mewn perthynas â recriwtio ac, unwaith y bydd yr ysgol wedi'i sefydlu, mewn perthynas â rheoli staff.

Bydd angen staff addysgu a chefnogi ychwanegol i staffio'r ysgol, ar y dechrau ac wrth i'r ysgol dyfu i'w chapasiti posibl o 210 o ddisgyblion.

21. Trefniadau Cludiant

Caiff goblygiadau Traffig a Chludiant eu hystyried fel rhan o'r asesiad cludiant y byddai ei angen er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

Cydnabyddir y gallai unrhyw ysgol newydd achosi llif traffig ychwanegol a mwy o geir angen parcio, yn enwedig ar amseroedd danfon a chasglu plant.

Bydd trefniadau cludiant yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor.

22. **Effaith ar y Gymuned**

Mae angen cynyddu nifer y llefydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael heb gael effaith andwyol ar y gymuned. Caiff y canlynol eu hystyried wrth feddwl am gynnig: Man Agored Cyhoeddus, tir parc, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol lle bynnag y bo'n bosibl.

23. Asesiad o Effaith ar y Gymuned

Cynhaliwyd asesiad o effaith ar y gymuned ym mis Awst 2017. Y teimlad yw y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion cyfrwng Cymraeg a Rhieni/Gofalwyr y disgyblion hynny.
E/EIA/00013/2017

24. Asesiad o Effaith ar y Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg ym mis Awst 2017. Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg.

25. Effaith y Cynnig ar Ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru

Nid yw'r cynnig yn cyfoethogi nac yn cael effaith negyddol ar y Ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru.

26. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ym mis Awst 2017. Nid yw'r cynnig yn cyfoethogi nac yn cael effaith negyddol ar Gydraddoldeb.

27. Cynaliadwyedd

- Y sefyllfa bresennol

Nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir oherwydd: -

Mae twf parhaus yn y sector cyfrwng Cymraeg ac mae rhieni'n gofyn am ledaeniad demograffig ehangach ar gyfer lleoliad y darpariaethau.

28. Y camau nesaf - Sut i leisio'ch barn

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gyfleu eich barn i ni. Ynghlwm wrth y ddogfen hon ceir ffurflen ymateb. Gallwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom yn y cyfeiriad a nodwyd.

Gallwch gysylltu â ni drwy e-bost. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ohebiaeth yw:

newwelshmedium@wrexham.gov.uk.

Mae'r ffurflen ymateb ar gael yn:

www.wrexham.gov.uk/newwelshmediumconsultation

29. Dyddiadau allweddol

Ymarferiad Ymgynghori - 26 Medi 2017 i 7 Tachwedd 2017
Adroddiad Ymgynghori i'r Bwrdd Gweithredol – 12 Rhagfyr 2017
Cyhoeddi Hysbysiad Statudol a Chyfnod Gwrthwynebu – I'w gadarnhau
Adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol a Gwneud Penderfyniad – 13 Mawrth 2018

30. Beth fydd yn digwydd nesaf

Adroddiad Ymgynghori

O fewn 13 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion (ac ym mhob achos cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r ymgynghorol a fydd yn:

- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol.
- Cyflwyno safbwynt Estyn (fel y darparwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad) o fanteision cyffredinol y cynnig.

Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion - er enghraifft, i bwyllgor gweithredol yr awdurdod - am sut i symud ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, i roi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y cynigion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ymgynghori a'i fod yn cael ei wneud yn hygyrch iddynt.

Bydd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi yn electronig, ar wefan yr ysgol a'r Cyngor. Yn ogystal, bydd copïau caled ar gael ar gais.

Y Broses Statudol

Mae'r broses ymgynghori yn amodol ar ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, dogfen rhif 006/2013.

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad hwn, 7 Tachwedd 2017, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Yna, bydd swyddogion y Cyngor yn cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar 12 Rhagfyr 2017.

Os bydd yr argymhelliad yn cael ei dderbyn gan y Bwrdd Gweithredol, yna bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar y farn a fynegwyd i'r Cyngor yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

31. Cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar 26 Medi ac yn dod i ben ar 07 Tachwedd 2017. Gweler tudalen 33 am fanylion pellach sut i ymateb a lleisio'r barn.

O fewn 13 wythnos i 07 Tachwedd 2017, caiff adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn.

Bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu p'un a ddylid mynd ymlaen â'r cynigion ai peidio.

32. Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol

Bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i arddangos yn neu wrth y brif fynedfa i'r safleoedd yn amodol ar yr hysbysiad. Byddai copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion a enwir yn yr hysbysiad. Bydd yr hysbysiad yn nodi dyddiadau'r cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod a nodir.

33. Penderfynu ar y Cynigion

Bydd canlyniadau'r hysbysiad statudol yn cael eu cymryd cyn cyfarfod Bwrdd Gweithredol y Cyngor ar 13 Mawrth 2018

34. Hysbysiad o'r Penderfyniad

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Gweithredol bydd hysbysiad o'r penderfyniad ar gael i'r holl rai a ymgynghorwyd. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.

35. <u>Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad</u>

Mae ffurflen ymateb ar gyfer rhoi sylwadau, gan gynnwys cyfle i ymgyngoreion gofrestru eu dymuniad i gael eu hysbysu pan fydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi, wedi ei atodi i'r ddogfen ymgynghori.

Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd

Eich Sylwadau:

Enw a Chyfeiriad:

Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori ☐

Sylwch: Mae'r daflen hon ar gyfer dibenion ymgynghori yn unig. Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried o fewn y broses ymgynghori, ond ni fydd atebion unigol yn cael eu darparu.

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Dafydd Ifans
Ymgynghoriad Cyfrwng Cymraeg Newydd
Pennaeth Gwasanaethau Isadeiledd a Chymorth Addysg
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1AR

Fel arall, gallwch lenwi'r fersiwn ar-lein yn
www.wrexham.gov.uk/newwelshmediumconsultation

Neu gallwch anfon e-bost gyda'ch safbwyntiau i newwelshmediumconsultation@wrexham.gov.uk